

Heddlu Gogledd Cymru – cyfreithlondeb

Trosolwg – Pa mor gyfreithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

Dyfarniad cyffredinol



Da

Trwy gydol 2015, mae rhaglen archwiliad cyfreithlondeb PEEL HMIC wedi asesu'r diwylliant o fewn Heddlu Gogledd Cymru, a sut mae hyn wedi ei adlewyrchu yn ymgysylltiad cyhoeddus yr heddlu, defnydd o Taser a chydymffurfiad gyda'r cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio.

Canfu HMIC fod Heddlu Gogledd Cymru yn trafod yr angen i sefydlu gweithlu moesol a chynhwysol o ddifrif, ac yn ymroddedig i gefnogi lles staff. Mae gan dimau plismona lleol ddealltwriaeth dda o'u cymunedau ac maent yn ymroddedig i'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu i ddioddefwyr trosedd.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cydymffurfio gyda'r rhan fwyaf o agweddau Defnydd Gorau'r Cynllun Stopio a Chwilio; fodd bynnag, mae HMIC yn poeni nad yw seiliau rhesymol dros stopio a chwilio yn cael eu cofnodi'n gywir, neu nad ydynt yn cael eu goruchwylio'n briodol. Rydym yn fodlon y defnyddir Taser yn deg a phriodol.

Dyma'r tro cyntaf i HMIC raddio heddluoedd ar eu cyfreithlondeb, felly nid yw'n bosibl cyflawni cymhariaeth blwyddyn ar flwyddyn.

Crynodeb

Mae'r prif gwnstabl wedi sefydlu gweledigaeth glir i staff 'wneud y peth iawn', ac roedd yr heddlu'n gweithio tuag at sefyllfa ble roedd diwylliant moesol yn rhan o blismona pob dydd. Roedd Heddlu Gogledd Cymru yn gwbl ymroddedig i les staff gydag ystod eang o wasanaethau ar waith. Roedd yr heddlu wedi mynd ati i integreiddio'r Cod Moeseg, ac roedd mwy o waith ar y gweill iddo gael ei sefydlu'n llawn. Roedd yna broses gwynion a pholisi camymddwyn cyson a theg a dywedodd staff eu bod yn teimlo y byddent yn cael eu trin yn deg. Adroddwyd problemau parthed prydlondeb a hyfforddiant i staff ar reoli cwynion.

Pan edrychodd HMIC ar pa mor dda mae'r heddlu'n deall ac yn ymgysylltu'n llwyddiannus gyda'r holl bobl mae'n eu gwasanaethu, fe welsom dystiolaeth o gysylltiadau lleol effeithiol gydag asiantaethau lleol a rhai cymunedau; fodd bynnag, nid yw gwybodaeth berthnasol a chyfredol am gamau gweithredu plismona i ddelio

gyda phroblemau lleol yn cael eu darparu mewn modd gyson bob tro. Mae yna dystiolaeth dda fod y cyhoedd yng Ngogledd Cymru yn cael eu trin yn deg a gyda pharch gan eu heddlu lleol.

Mae stopio a chwilio a Taser yn ddwy ffordd sydd ar gael i'r heddlu i atal troseddu a diogelu'r cyhoedd. Fodd bynnag, gallant fod yn ddulliau ymwithiol a gorfodol, ac felly mae'n allweddol fod yr heddlu'n eu defnyddio'n deg a phriodol. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cydymffurfio gyda'r rhan fwyaf o agweddau'r cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio, ac eithrio cynllun 'cysgodi'. Mae HMIC yn pryderu nad yw seiliau rhesymol yn cael eu cofnodi'n briodol ar gyfer stopio a chwilio, na'n cael eu goruchwyllo. Rydym yn fodlon y defnyddir Taser yn deg a phriodol.

I ba raddau mae ymarfer ac ymddygiad yn atgyfnerthu lles staff a diwylliant moesegol?

Roedd y prif gwnstabl a thîm y prif swyddog wedi anfon negeseuon clir o'u hymroddiad i weithredu'n foisol a gyda safonau ymddygiad priodol. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn deall y rhain. Roedd yr heddlu yn gweithio tuag at safle ble roedd diwylliant moesol yn rhan o blismona pob dydd.

Roedd Heddlu Gogledd Cymru yn gwbl ymroddedig i les staff. Roedd yr heddlu yn y broses o ddatblygu rhaglen gwbl integredig o iechyd a lles, gyda thystiolaeth o arfer da. Nid oedd y broses wedi ei chwblhau eto, ac roedd angen gwneud mwy i sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol o'r polisi lles.

Roedd yr heddlu wedi mynd ati i integreiddio'r Cod Moeseg i gefnogi ei strategaeth pobl a'i bolisi ar werthoedd ac ymddygiad. Er bod yna rywfaint o ddealltwriaeth o'r Cod Moeseg, nid oedd eto wedi ei sefydlu'n llawn ar bob lefel nac yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd wrth wneud penderfyniadau dyddiol.

Roedd gan yr heddlu broses gwynion a pholisi camymddwyn cadarn, cyson a theg. Teimlai staff y byddent yn cael eu trin yn deg a bod ganddynt hyder yn y broses ac ymchwiliadau rheolwyr, er yr adroddwyd problemau o ran prydlondeb a hyfforddiant staff ar gyfer rheoli cwynion.



Da

Pa mor dda mae'r heddlu yn deall, ymgysylltu gydag a thrin y bobl mae'n eu gwasanaethu yn deg i gynnal a gwella ei gyfreithlondeb?

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn ymroddedig i ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Mae'r heddlu yn hyrwyddo a phwysleisio'r gwerthoedd ac egwyddorion moesol y mae'n disgwyl i'w staff eu cynnal. Mae staff yn deall ac yn gefnogol o'r egwyddorion hyn.

Mae'r heddlu yn dechrau defnyddio offer cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol, ond mae yna ddibyniaeth o hyd ar gyswllt wyneb yn wyneb trwy gyfarfodydd a digwyddiadau ymgysylltu cymunedol lleol. Mae angen i gyswllt o'r math hwn gael ei gynnal, ond o reidrwydd mae wedi ei gyfyngu o ran cwmpas. Nid yw'r heddlu'n darparu gwybodaeth gyson y gall pobl ddefnyddio i farnu sut mae'n delio gyda materion lleol.

Gwelodd HMIC fod yr heddlu wedi gwella'r ffordd mae'n ymgysylltu gyda dioddefwyr troseddau, ac wedi datblygu ffyrdd o sicrhau eu bod yn cael eu diweddarau. Defnyddir galwadau yn ôl i ddioddefwyr ac arolygon a ddarperir yn allanol i wirio pa mor effeithiol yw hyn. Mae data diweddar yn dynodi lefelau uchel o foddhad ymysg pobl sydd wedi adrodd am drosedd.

Mae yna dystiolaeth dda fod y cyhoedd yng Ngogledd Cymru yn cael eu trin yn deg a gyda pharch gan eu heddlu lleol. Awgryma canlyniadau arolygon lleol hefyd fod hyn yn cael ei gydnabod gan y cyhoedd.



Da

I ba raddau y mae penderfyniadau ar ddefnyddio stopio a chwilio a Thaser yn deg a phriodol?

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cydymffurfio gyda'r rhan fwyaf o agweddau'r cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio, ac eithrio cynllun cysgodi. Am ryw reswm, mae'r heddlu wedi cyfyngu'r cynllun cysgodi i aelodau ei grŵp ymgynghori annibynnol a rhai cynghorwyr lleol, ond nid y cyhoedd.

Mae HMIC yn pryderu nad yw seiliau rhesymol yn cael eu cofnodi'n briodol ar gyfer stopio a chwilio, na'n cael eu goruchwyllo. Mae hyn yn rhywbeth mae'r heddlu angen rhoi sylw iddo.

Mae gan yr heddlu drefniadau ar gyfer craffu allanol o achosion stopio a chwilio, yn cynnwys adolygiad gan banel annibynnol, sy'n cynnwys pobl ifanc a chynrychiolaeth gan gymunedau lleiafrifol. Mae'r adolygiad hefyd yn cynnwys archwiliad o recordiadau fideos camerâu ar y corff pan fyddant ar gael.

Mae HMIC yn fodlon y defnyddir Taser yn deg a phriodol. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r swyddogion yn cwblhau'r ffurflen Taser yn gywir ac mae hyn yn faes y dylai'r heddlu roi sylw iddo.



Da

Meysydd i'w gwella

- Dylai'r heddlu sicrhau bod cofnodion stopio a chwilio yn cynnwys sail rhesymol ddigonol i gyfiawnhau'r defnydd cyfreithlon o'r pŵer, a bod swyddogion a goruchwylwyr yn deall y seiliau gofynnol ar gyfer stopio a chwilio yn llawn.
- Rhaid i'r heddlu sicrhau bod (i) Swyddogion sydd wedi eu hyfforddi i ddefnyddio Taser yn cofnodi eu penderfyniadau yn briodol, yn unol â hyfforddiant y Coleg Plismona, a (ii) bod y ffurflenni hyn wedi eu goruchwyllo'n briodol.